# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 14 MEHEFIN 2023 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

S. Harris (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Richards, (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), P. O'Neil (Uwch-reolwr y Gwasanaeth Ieuenctid), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), V. Doyle (Swyddog Polisi), P. Warren (Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif, Derbyniadau a Gwaharddiadau), P. Cooke (Rheolwr Trawsnewid), B. Winstanley (Pennaeth Gwasanaethau Tir ac Eiddo), A. Cullinane (Uwch-swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Gymraeg), E. Townsend (Rheolwr Iechyd a Diogelwch), L. Kabza (Cydgysylltydd Prosiectau Cyfranogiad Pobl Ifanc a'r Cwricwlwm), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), J. Thomas (Swyddog y Gwasanaeth Pwyllgorau).

Hefyd yn bresennol:

Mr B. Mahoney (Is-gadeirydd y Fforwm Ieuenctid)

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Bu i'r Arweinydd atgoffa'r rheiny a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y bydd recordiad ohono ar gael i'w wylio ar wefan y Cyngor, ac eithrio'r trafodaethau a fydd yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu esempt. Cliciwch fan hyn i wylio'r cyfarfod.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law gan y Cynghorydd Nigel George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan.

## 3. COFNODION – 19 Ebrill 2023

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023 yn gywir, yn ddibynnol ar ychwanegu'r Cynghorydd C. Andrews at y rhestr o'r rheiny a oedd yn bresennol.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet a oedd yn rhoi manylion yr adroddiadau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno iddo hyd nes 18 Hydref 2023.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

## 5. POLISI TRAIS YN Y GWEITHLE

Ystyriwyd adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Trais yn y Gweithle.

Bu i'r Cabinet nodi bod yr Undebau Llafur a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch wedi gwneud dau fân ychwanegiad at fersiwn ddrafft o'r polisi yn ystod y broses ymgynghori, a'u bod wedi'u cynnwys yn adran 4.2 a 4.4.2 o ddrafft terfynol y polisi a oedd wedi'i atodi yn Atodiad 1.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo'r Polisi Trais yn y Gweithle am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion.

## 6. MATERION SY'N FLAENORIAETH I'R FFORWM IEUENCTID

Bu i'r Cabinet ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am farn yr Aelodau am y ffordd orau i'r Cyngor fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc drwy Fforwm Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid.

Croesawodd y Cabinet Mr Brogan Mahoney, Is-gadeirydd y Fforwm Ieuenctid, a roddodd gyflwyniad manwl i roi gwybod i'r Cabinet am y broses o bennu'r materion sy'n flaenoriaeth, a oedd yn cynnwys proses ymgynghori, gyda phum maes pwysig (Dysgu, Llewyrchus, Gwyrddach, Iachach, a Mwy Diogel) yn cael eu pennu yng Nghynhadledd Flynyddol y Fforwm Ieuenctid cyn cynnal pleidlais ar y materion sy'n flaenoriaeth ym mis Chwefror 2023. Y mater sy'n flaenoriaeth a ddewiswyd drwy'r bleidlais honno oedd 'Dysgu', ac mae hyn yn cynnwys sgiliau bywyd i fyw'n annibynnol, cyllidebu, cynnal a chadw ceir, ac Iaith Arwyddion Prydain. Cafodd y Cabinet hefyd wybod sut y bydd y Fforwm Ieuenctid yn mynd i'r afael â'r materion sy'n flaenoriaeth, sy'n cynnwys cyfarfodydd wythnosol grŵp prosiect, amserlen waith y cytunwyd arni, ac ymgynghoriad am 'sgiliau bywyd' a gynhelir ledled y Fwrdeistref Sirol.

Bu i'r Cabinet ddiolch i Is-gadeirydd y Fforwm Ieuenctid am y cyflwyniad rhagorol.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod dau swyddog o'r Prosiect Lluosi yn gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i gynnal digwyddiad Labordy Sgiliau Bywyd. Amcan y digwyddiad fydd dal dychymyg pobl ifanc, er enghraifft, drwy ddysgu sgiliau coginio a chyllidebu a fydd yn eu helpu i fyw'n annibynnol. Bydd cwrs blasu Iaith Arwyddion Prydain yn cael ei gynnwys yn y digwyddiad, a bydd cyfle i ennill cymhwyster.

Yn sgil cwestiwn gan y Cabinet ynghylch sut y mae mentora yn cael ei hyrwyddo o fewn y Fforwm Ieuenctid, dywedodd y Swyddogion wrth y Cabinet fod pob gweithiwr ieuenctid yn gweithredu fel mentor i bobl ifanc, ac mai'r bwriad yw gosod gweithwyr ieuenctid mewn mannau priodol er mwyn i bobl ifanc allu cael mynediad rhwydd atyn nhw a chael eu mentora a'u cynorthwyo yn ôl y gofyn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cefnogi'r Fforwm Ieuenctid â'i waith i fynd i'r afael â'r prif fater sy'n flaenoriaeth.

2. Ystyried sut i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid i fynd i'r afael â'r mater sy'n flaenoriaeth.

3. Rhoi sylw dyledus i'r materion a godwyd yn yr adroddiad gan blant a phobl ifanc pan fydd yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2022-23

Ystyriwyd adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023 mewn pedwar maes gwaith penodol o ran y Gymraeg, ac yn gofyn iddo ei gymeradwyo, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddiol i roi Safonau'r Gymraeg ar waith.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin 2023, fel sy'n ofynnol gan Safon 158.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod gŵyl 'Ffiliffest' lwyddiannus arall wedi'i chynnal yng Nghaerffili, a'i bod wedi croesawu pobl ddi-Gymraeg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Roedd y Dirprwy Arweinydd am gofnodi ei gefnogaeth a'i ddiolchiadau i'r Fenter Iaith a'r holl sefydliadau a oedd wedi cyfrannu at lwyddiant y digwyddiad.

Roedd y Cabinet yn falch iawn o gydnabod mai hon oedd y bumed flwyddyn yn olynol nad oedd yr Awdurdod wedi cael ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac roedd modd priodoli hyn yn llwyr i waith caled ac ymroddiad y staff. Roedd un o aelodau'r Cabinet am gofnodi diolchiadau i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

Dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet fod y Cyngor yn gefnogol iawn o staff sydd am ddysgu Cymraeg a bod cyrsiau'n cael eu darparu am ddim ar-lein neu wyneb yn wyneb, yn unol â dewis y dysgwr. Dros y misoedd nesaf, bydd llawer o wybodaeth yn cael ei rhannu â staff i roi gwybod iddynt sut i gofrestru ar y cyrsiau. Rhoddodd y Swyddog hefyd wybod i'r Cabinet am glwb amser cinio o'r enw Clwb Clebran sy'n dod ag aelodau staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheiny sy'n dysgu'r iaith ynghyd i ymarfer eu sgiliau Cymraeg gyda'i gilydd yn y gweithle. Fe'u hanogir i ohebu â'i gilydd yn Gymraeg drwy negeseuon e-bost neu i gael sgyrsiau Cymraeg dros y ffôn er mwyn i'r Gymraeg ddod yn rhan arferol o'r diwrnod gwaith.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog y dylid nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a chymeradwyo cyhoeddi'r wybodaeth fel cofnod o gynnydd tuag at gyflawni Safonau perthnasol y Gymraeg, a chydymffurfio â nhw.

**8. CYNNIG BAND B Y RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY – DIWEDDARIAD AM UNED CYFEIRIO DISGYBLION, PONTLLAN-FRAITH (CANOLFAN I DDYSGWYR SY'N AGORED I NIWED)**

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet am Fand B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o ran Uned Cyfeirio Disgyblion, Pontllan-fraith y cyfeirir ati'n lleol fel 'y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed'.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod y prosiect yn bwriadu creu Uned Cyfeirio Disgyblion i ddisgyblion sy'n agored i niwed ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith. Bydd yno le i rhwng 80-120 o ddisgyblion a chyfleoedd dysgu o ansawdd uchel, gyda darpariaeth chwaraeon dan do ac awyr agored, a bydd y gymuned ehangach hefyd yn gallu defnyddio'r cyfleusterau tu allan i oriau ysgol. Bydd y prosiect yn cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed o bob rhan o Gaerffili yng Nghyfnod Allweddol 3/4, a bydd yn rhan ganolog o Strategaeth y Cyngor ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a model prif ganolfan a lloerennau Cwmpawd.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo bod £2,150,739.40 ychwanegol yn cael ei neilltuo o Gronfa Wrth Gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod mewn perthynas â'r cyfraniad ariannol mwy o faint sy'n ofynnol i gwblhau'r cynnig i greu Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ym Mhontllan-fraith fel rhan o Fand B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Bu i'r Cabinet nodi bod y costau ychwanegol wedi cynyddu mwy na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol oherwydd y cynnydd yng nghostau adeiladu sy'n digwydd ledled Cymru.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi y bydd y cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored a ddarperir yn y Ganolfan ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion y dylid cytuno i neilltuo £2,150,739.40 ychwanegol o Gronfa Wrth Gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod i ariannu cost creu Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ym Mhontllan-fraith.

**9. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I WEITHREDIAD CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU A CHRONFA GRANTIAU BACH Y SECTOR GWIRFODDOL**

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn argymell i'r Cabinet newidiadau i weithrediad Cronfa Deddf Eglwys Cymru a Chronfa Grantiau'r Sector Gwirfoddol, yn sgil adolygiad gan Banel Grantiau'r Sector Gwirfoddol. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell dirprwyo penderfyniadau ar newidiadau i weithrediad y grantiau yn y dyfodol i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151.

Bu i'r Cabinet nodi'r argymhellion a gynigiwyd gan Banel Grantiau'r Sector Gwirfoddol o ran Cronfa Deddf Eglwys Cymru a Chronfa Grantiau'r Sector Gwirfoddol.

Yn sgil cwestiynau gan y Cabinet, rhoddodd y Swyddogion wybod i Aelodau'r Cabinet fod y ffurflen gais i gael grant wedi'i hadolygu yn ystod y 18 mis diwethaf, gyda'r nod o symleiddio'r ffurflen cyhyd ag y bo modd er mwyn iddi fod yn haws i ymgeiswyr ei llenwi. Serch hynny, mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys ynddi o hyd yn ofynnol i gydymffurfio â'r rheoliadau ariannol. Rhoddodd y Swyddog hefyd wybod i Aelodau'r Cabinet fod y ffurflen yn gymharol syml ac mai

dim ond ticio bocsys yr oedd angen ei wneud gan mwyaf. Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Cabinet hefyd nad yw grantiau'n cael eu talu'n llwyr ar ôl eu cymeradwyo, a hynny oherwydd bod y Cyngor yn gyfrifol am fonitro arian cyhoeddus. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am achosion yn y gorffennol lle y cafodd grantiau eu cymeradwyo o dan Gronfa Deddf Eglwys Cymru ond na chafodd y swm erioed ei hawlio. Mae'r cynnig a geir yn yr adroddiad i dalu 50% i gychwyn yn gyfaddawd i gynorthwyo sefydliadau ac i sicrhau bod y risg i'r Cyngor yn dderbyniol. Bu i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 nodi y byddai'n ystyried ceisiadau i ddarparu 100% o'r arian ar sail eithriadol pe bai rhywun yn dadlau'r achos dros wneud hynny.

Mynegwyd pryderon gan y Cabinet o ran y rheolau prydles a sut y gallai'r rhain effeithio ar rai canolfannau cymunedol. Ar hyn o bryd, nid yw pedair canolfan gymunedol sy'n eiddo i'r Cyngor yn gymwys i wneud cais i Gronfa Deddf Eglwys Cymru oherwydd nid oes digon o amser yn weddill ar eu prydlesi. Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Cabinet fod hyd y brydles, yn draddodiadol, yn dangos ymrwymiad mwy hirdymor i'r adeilad a'r hyn sy'n cael ei gyflawni o'r adeilad. Mae Cronfa Deddf Eglwys Cymru yn ddrych o Grant Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, lle y mae'r gofyniad o ran prydles yn llawer mwy beichus, ac o Grantiau'r Loteri, lle y mae'n ofynnol i 25 i 50 mlynedd fod yn weddill ar y brydles. Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Cabinet y byddai'n hapus i weithio gydag unrhyw ganolfan nad yw'n gymwys ar hyn o bryd. Cafodd gwaith ei wneud gyda'r mathau hyn o safleoedd yn y gorffennol i estyn eu prydlesi i 25 mlynedd, rhywbeth a fyddai'n creu nifer o gyfleoedd ariannu gwahanol iddynt. Felly, mae'n fuddiol cael cytundeb prydles yn ei le.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i Aelodau'r Cabinet fod llythyr wedi dod i law gan y Cynghorwyr Judith Pritchard a Marina Chacon Dawson yn gofyn am i ffurflen gais a meini prawf Cronfa Deddf Eglwys Cymru gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor er eglurder a hwylustod. Nodwyd bod hyn wedi'i gynnig fel rhan o argymhellion adroddiad y Swyddogion.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion fod y Cabinet yn cymeradwyo'r hyn a ganlyn:

1. Na fydd Cronfa Deddf Eglwys Cymru yn darparu arian ar gyfer costau refeniw.

2. Mai uchafswm y grantiau a ddyfernir yn y dyfodol o Gronfa Deddf Eglwys Cymru fydd £7,500 hyd nes bod y tanwariant wedi'i ddefnyddio'n llwyr.

3. Bod symiau Meini Prawf Cyffredinol Cronfa Grantiau'r Sector Gwirfoddol yn cynyddu 20% o flwyddyn ariannol 2023/24 ac yna yn unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) mewn blynyddoedd i ddod.

4. Bod y rhestr o Feini Prawf Cyffredinol arfaethedig Cronfa Grantiau'r Sector Gwirfoddol yn cwmpasu'r holl gategorïau gofynnol.

5. Y cytunir ar gylch gorchwyl newydd yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol i sicrhau bod modd i hyn ddigwydd, ac y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar ôl hynny gydag Aelodau etholedig <u>yn unig</u> i ystyried ceisiadau sy'n syrthio tu allan i'r Meini Prawf Cyffredinol neu'n ymwneud ag 'unigolion eithriadol' sy'n ceisio cymorth ariannol.

6. Bod ffurflen gais a meini prawf Cronfa Deddf Eglwys Cymru yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

7. Bod isafswm yr arian grant y gellir ei ddyfarnu i sefydliad gwirfoddol yn cynyddu i £200.

8. Bod penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch rheoli a gweithredu Cronfa Deddf Eglwys Cymru a Chronfa Grantiau'r Sector Gwirfoddol yn cael eu dirprwyo i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151.

## 10. DIWEDDARIAD AM Y CYNLLUN GWEITHREDU DATGARBONEIDDIO A'R DULL ARFAETHEDIG O WEITHREDU YN Y DYFODOL

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet am y gwaith a wnaed i roi camau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar waith.

Bu i'r Cabinet nodi bod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cymeradwyo'r adroddiad ar 2 Mai 2023.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhellion a oedd yn ymwneud â'r camau nesaf i'w cymryd i gyflawni targed y Cyngor i gyrraedd sefyllfa carbon sero net erbyn 2030.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod am gofnodi ei ddiolch i'r Swyddogion am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad o ran a fydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Dîm Tai Caerffili i leihau carbon yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio cyffredinol. Eglurodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi dweud na fydd Tai yn cael eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r llinell sylfaen, a hynny gan nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru'n berchen ar eu stoc dai eu hunain mwyach. Serch hynny, bydd allyriadau'r awdurdod sy'n deillio o reoli a chynnal ei stoc dai, fel gwresogi a goleuo swyddfeydd tai, y diesel a ddefnyddir mewn cerbydau i yrru i dai i gyflawni gwaith cynnal a chadw, a'r deunyddiau a ddefnyddir, i gyd yn cyfrif tuag at ôl troed carbon yr Awdurdod.

Nododd y Cabinet fod gan Lywodraeth Cymru fethodoleg glir iawn i gyfrifo ôl troed carbon. Mae'n cynnwys popeth sy'n cael ei allyrru gan y Cyngor, felly mae'r cyfrifiadau'n gynhwysfawr iawn ac mae'r data'n gwella i wneud yn siŵr bod y cyfrifiadau'n dod yn fwy cywir.

At hyn, eglurodd y Swyddogion mai cadwyn gyflenwi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r cyfrannwr mwyaf o bell ffordd at ei ôl troed carbon, ac mai hwn yw'r maes mwyaf heriol o ran ceisio lleihau effaith carbon.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion fod y Cabinet yn cymeradwyo'r hyn a ganlyn:

1. Bod Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i ganolbwyntio ar ofynion sefydliadol 2030 ac i fod yn gydnaws â map ffyrdd ac amserlenni Llywodraeth Cymru, a bod cynllun gweithredu ar wahân ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd yn cael ei baratoi a'i ystyried, yn unol â thargedau 2050.

2. Bod pob Cyfarwyddiaeth a Maes Gwasanaeth yn cael copi o'u llinell sylfaen o ran carbon, a bod gwaith yn cael ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 i'w cynorthwyo i ddeall ac i ddadansoddi'r allyriadau hynny yn llwyr ac i bennu meysydd blaenoriaeth i'w lleihau.

3. O 2024/25, y cytunir â'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar gyllidebau carbon, gyda thargedau lleihau carbon penodedig, ar gyfer pob maes gwasanaeth, ac y rhoddir adroddiadau arnynt drwy Asesiadau Perfformiad y Cyfadrannau.

4. Bod gweithgor yn cael ei sefydlu ar gyfer pob un o'r pedwar piler, sef Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwyso a Phrynu, i gydgysylltu'r gwaith ym mhob maes.

7. Y cytunir ar y pum blaenoriaeth gorfforaethol a ganlyn:

- Dylid cynnwys ystyriaethau carbon sero net ym mhob penderfyniad mawr fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig.
- Bydd pob adeilad corfforaethol ac ysgol newydd yn cael eu dylunio yn unol â safonau carbon sero net lle bo modd.
- Bydd pob system wresogi newydd yn pontio i wres carbon isel, gyda gwaith priodol yn cael ei wneud i uwchraddio deunyddiau inswleiddio lle bo modd, gyda thanwydd ffosil dim ond yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf.
- Dylid datblygu hierarchaeth teithio carbon isel a'i rhoi ar waith ar gyfer teithio busnes i gyflymu'r broses o bontio i drafnidiaeth carbon isel.
- Byddwn yn anelu at blannu 300,000 o goed newydd cyn 2030 pan fydd argaeledd tir yn caniatáu i ni wneud hynny.

7. Bod rhaglen meithrin sgiliau, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad yn cael ei llunio ochr yn ochr â chymorth manwl ar gyfer swyddi penodol, gan gynnwys gwybodaeth dechnegol.

8. Y byddwn yn parhau â'r gwaith i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy priodol sy'n cyfrannu at ein rhaglen gyffredinol.

9. Bod gwaith gwerthuso a mapio tir manwl yn cael ei wneud i ddiogelu cynefinoedd ac i bennu tir i blannu coed arno. Dylid gwneud mwy o waith i asesu dichonoldeb rhaglen bosibl i greu Coedwig Caerffili a'r posibilrwydd o dyfu ein coed ein hunain.

10. Bod polisïau caffael carbon isel yn cael eu gwreiddio drwy fframweithiau caffael, gan greu rhan allweddol o'r dadansoddiad cost a buddion a'r broses o arfarnu contractau. Caiff cyflenwyr a gwasanaethau eu herio i bennu ffyrdd o leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn sylweddol, ac i fynd ati i wneud hynny.

11. Bod cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso bob blwyddyn, gydag Adroddiad Blynyddol am Ddatgarboneiddio yn cael ei baratoi bob mis Tachwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 14.25pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn ddibynnol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023.

________________________

CADEIRYDD